

WILLIAMS, RICHARD (fl. 1790?-1862?), baledwr, a chantwr pen ffair ('efallai mai tywysog y datgeiniaid,' meddai un a'i clybu), a adweinid fynychaf fel ' Dic Dywyll,' neu bryd arall fel ' Bardd Gwagedd.'

Enw: Richard Williams

Ffugenw: Dic Dywyll, Bardd Gwagedd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: baledwr, a chantwr pen ffair

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Dyn o'r Gogledd oedd - priodolir ei eni i Amlwch, i Lannerch-y-medd, ac i L n, gan wahanol atgofwyr - ond yn y Deheudir yr enillodd fwyaf o enw. Ni lwyddwyd i gael ei ddyddiadau pendant; tybiai un a'i clybu tua 1862 ei fod y pryd hynny rhwng 70 a 75 oed. Yr oedd yn eisteddfod Aberhonddu yn 1822. Gwyddys iddo ganu ar adeg terfysg Merthyr Tydfil yn 1831; bu'n byw yno am rai blynyddoedd, a rhannodd y wobr am unawd bas yn eisteddfod y 'Swan' yno yn 1834. Pwtyn byr oedd ' Dic '; fel yr awgryma'i lysenw, yr oedd yn ddall; edrydd ' [Nathan Dyfed](#) ' (Jonathan Reynolds) fel y byddai'n canu 'â'i fys bach yng nghongl ei lygad.' Adroddir iddo ennill wythpunt ar un prynhawn ym Merthyr wrth werthu ei gerddi. Dywedir i'w ' Gân ar ddull y gyfraith newydd, sef y workhouse ' (gweler hi yn [B. B. Thomas](#), isod, 93-6) gynhyrfu cymaint ar werin Merthyr fel na feiddiodd y gwarcheidwaid godi tloty yn y dre am gryn ugain mlynedd; canodd hefyd yn adeg terfysgoedd 'Beca.' Erys 73 o'i gerddi mewn argraff, ac y mae cyfrol lawysgrif ohonynt yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (N.L.W. MS. 1143). Medrai lunio penillion cain iawn, e.e. ' Lliw gwyn, rhosyn yr haf.' Ond hoffach oedd ganddo ddychanu neu ganu'n ddigrif, ac nid yn anfynych byddai'n 'go isel a thomenllyd,' chwedl ' [Glaslyn](#).' Bu farw yn Lerpwl (yno, canai yn y ' Cambria ' a'r ' Portmadoc Arms'), ar adeg anhysbys - y mae darn o farwnad iddo yn [B. B. Thomas](#), 19-20.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Y mae'r cyfeiriadau'n lluosog, ond (fel yr awgrymwyd) bron yn gwbl ddiamseriad: *Cymru (O.M.E.)*, ii, 48, xxii, 7, ('Glaslyn'), xiv, 64, 70, ('Myllin'), xxviii, 165, etc.

D. Samuel, li, 122

('Cadrawd'), a manau eraill

D. Samuel, rhagymadrodd i *Cerddi Cymru casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar*

B. B. Thomas, *Baledi Morgannwg* (1951)

Journal of the Welsh Bibliographical Society, ii, 50-5, 84-5, 151

gwybodaeth gan Mr. W. W. Price, Aberdâr

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Williams \(Dic Dywyll\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [56387024](#)

Wikidata: [Q13131094](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

